**Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18:**
**Cefndir i’r cwestiynau**

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r rhesymau dros ddewis pob cwestiwn yn Arolwg Cenedlaethol 2017-18. Dylai hefyd helpu defnyddwyr i ddeall pam fod pob cwestiwn yn cael ei eirio yn y ffordd benodol honno.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno cefndir ar bob cwestiwn ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â’r Arolwg Cyflwr Tai, a ychwanegwyd ym mis Gorffennaf 2017. Cyflwynir cefndir ar y cwestiynau Arolwg Cyflwr Tai yn yr Atodiad.

Gallwch glicio ar enw (y golofn ar y chwith) i agor yr holiadur ar y cwestiwn hwnnw. Mae'r cwestiynau wedi'u rhestru yn ôl y drefn y maent yn ymddangos yn yr holiadur, ac yn cael eu gosod mewn grwpiau ar sail testun.

| Enw Newidyn | Testun | Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau |
|---|---|---|
| C4 | Gweinyddol | • Pennu nifer y bobl sy'n byw yn y cartref<br>• Helpu i gyfeirio at gwestiynau eraill yn yr arolwg[1] |
| QBNames1-8 | Gweinyddol | • Cofnodi enwau holl aelodau'r cartref<br>• Helpu i gyfeirio at gwestiynau eraill yn yr arolwg<br>• Llenwi bylchau mewn cwestiynau yn nes ymlaen yn yr arolwg (ee cyfeirio at aelod o'r cartref yn ôl ei enw yn nes ymlaen yn yr arolwg er mwyn helpu i ddeall y cwestiynau yn well). |

[1] Mae cyfeirio yn ffordd o deilwra'r holiadur yn ôl manylion penodol pob ymatebydd, gan leihau nifer y cwestiynau sy'n cael eu holi i bob ymatebydd er mwyn ysgafnhau'r baich.

| | | |
|---|---|---|
| Gender<br>DteofBth<br>AgeIf | Rhyw<br>Oed | • Casglu data am ryw a dyddiad geni/oedran pob aelod o'r cartref<br>• Helpu i gyfeirio at gwestiynau eraill yn yr arolwg<br>• Llenwi bylchau mewn cwestiynau yn nes ymlaen yn yr arolwg (ee cyfeirio at aelod o'r cartref fel "ef" neu "hi", fel sy'n briodol)<br><br>Mae'r cwestiynau hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall cyfansoddiad cartrefi yng Nghymru ac yn golygu bod modd dadansoddi canlyniadau ar gyfer gwahanol gategorïau o bobl. Er enghraifft, oes gan bobl o wahanol oedrannau farn wahanol am wasanaethau cyhoeddus? Nid yw'r cwestiynau'n cael eu defnyddio i adnabod unigolion o gwbl. |
| HallRes | Neuaddau preswyl | • Mae'r arolwg yn gofyn am bob aelod o'r teulu yn ei dro a yw'n byw mewn neuadd breswyl neu ysgol breswyl ar hyn o bryd.<br>• Pennu yn union pwy sy'n byw yn y cyfeiriad hwn yn barhaol.<br>• Helpu i gyfeirio at gwestiynau eraill yn yr arolwg |
| HH4_6FtEd<br>HH16_19FtEd | Addysg llawn-amser | • Gofynnir a yw plant 4-6 oed neu 16-19 oed mewn addysg llawn-amser<br>• Penderfynu a ddylid cyfeirio ymatebwyr at gwestiynau am addysg gynradd neu uwchradd yn nes ymlaen yn yr arolwg |
| MarStat<br>MarChk<br>LivWith12 | Statws priodasol | • Gofynnir i bob aelod o'r cartref sy'n 16 oed neu'n hŷn nodi eu statws priodasol<br>• Llenwi bylchau mewn cwestiynau yn nes ymlaen yn yr arolwg yn gofyn am yr ymatebydd, yr ymatebydd a'i bartner, neu'r cartref yn gyfan |
| OwnRent<br>HighInc | Deiliadaeth, Perchnogaeth eiddo | • Cadarnhau pwy sydd berchen/yn rhentu'r llety er mwyn adnabod Person Cyswllt y Cartref<br>• Nodi'r aelod o'r cartref sydd â'r incwm uchaf os oes mwy nag un person yn berchen/rhentu’r llety |

| | | |
|---|---|---|
| SelPerson<br>C5b<br>C5c<br>PGName<br>PGRel<br>PGOT | Ymatebydd a ddewiswyd | • Mae SelPerson yn cofnodi pa aelod o'r cartref fydd yn ateb gweddill yr arolwg.<br>• Os yw'r ymatebydd yn 16 neu 17 oed, gofynnir y cwestiynau eraill i gael caniatâd y rhieni/gwarcheidwaid iddynt gymryd rhan. |
| RelResp | Grid perthynas y cartref | • Gofynnir am bob aelod o'r cartref i gadarnhau perthynas pob un â'i gilydd<br>• Helpu i gyfeirio at gwestiynau eraill yn yr arolwg (ee gofyn cwestiynau am blant dibynnol) |
| GrdChk | Gwarcheidwad cyfreithiol | • Holi os yw'r ymatebydd yn warcheidwad cyfreithiol dros unrhyw blant yn y cartref<br>• Helpu i gyfeirio rhieni a gwarcheidwaid at gwestiynau yn yr arolwg am ysgolion cynradd ac uwchradd, ac adrannau eraill yn ymwneud â phlant (e.g. amser o flaen sgrin, deiet ac ymarfer corff) |
| NatIdWel<br>NatIdEng<br>NatIdScot<br>NatIdNI<br>NatIdBrit<br>NatIdOth<br>NatIdOT<br>NatIdDk<br>NatIdRef | Hunaniaeth Genedlaethol | • Cadarnhau hunaniaeth genedlaethol yr ymatebydd<br><br>Mae'r cwestiynau yn caniatáu i ni edrych ar ganlyniadau gwahanol grwpiau o bobl. Er enghraifft, oes gan wahanol grwpiau o bobl wahanol farn am wasanaethau cyhoeddus? Nid yw'r cwestiynau'n cael eu defnyddio i adnabod unigolion o gwbl. |

| | | |
|---|---|---|
| Ethnicity<br>EthnWhOT<br>EthnMxOT<br>EthnAsOT<br>EthnBlkOT<br>EthnOthOT<br>EthnDK<br>EthnRef | Ethnigrwydd | • Cadarnhau ethnigrwydd yr ymatebydd<br><br>Nid yw'r cwestiynau'n cael eu defnyddio i adnabod unigolion o gwbl. |
| EconStat<br>Hours<br>WkingHH | Statws economaidd | • Gofynnir am bob aelod o'r cartref er mwyn cadarnhau statws cyflogaeth pob un<br>• Cadarnhau sawl awr yr wythnos y mae'r ymatebydd yn ei weithio<br><br>Nid yw'r cwestiynau'n cael eu defnyddio i adnabod unigolion o gwbl. |
| Educat<br>ApprLev | Cymwysterau | • Cadarnhau cymhwyster uchaf yr ymatebydd<br><br>Nid yw'r cwestiynau'n cael eu defnyddio i adnabod unigolion o gwbl. |
| WelUndSpk,<br>WelSpk<br>WelRead<br>WelWrite<br>WelAbSpk<br>WelFrqSpk | Y Gymraeg | • Casglu gwybodaeth ynghylch gallu'r ymatebydd i siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg<br>• Cadarnhau pa mor rhugl a pha mor aml mae'n siarad Cymraeg<br><br>Mae'r cwestiynau yn caniatáu i ni edrych ar ganlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl (ee siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg). Bydd y cwestiynau hyn yn darparu manylder nad yw ar gael o ffynonellau eraill (ee y Cyfrifiad) ac yn helpu Llywodraeth Cymru i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, drwy Strategaeth y Gymraeg. Nid yw'r cwestiynau'n cael eu defnyddio i adnabod unigolion o gwbl. |

| | | |
|---|---|---|
| WelConf, WelPrefSpk WelJudg / WelPrd WelWntLrn WelWntLrnBet WelEffSup Wel10yr | Gymraeg: Hyder ac agwedd tuag at yr iaith | • Mesur hyder yr ymatebydd wrth ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Mesur agwedd yr ymatebydd tuag at y defnydd o'r Gymraeg<br><br>Bydd y cwestiynau hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr i Lywodraeth Cymru ynghylch agweddau'r cyhoedd tuag at y Gymraeg a hyder siaradwyr Cymraeg wrth ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg. Bydd yr wybodaeth hon yn ategu Strategaeth y Gymraeg. |
| WbSatLife WbLifeWrth WbHapYest WbAnxYest TrustMost JobSat | Llesiant | • Mesur gwahanol agweddau ar lesiant goddrychol yr ymatebydd (ee boddhad â bywyd, lefelau o bryder)<br><br>Bydd y cwestiynau yn darparu gwybodaeth ynghylch llesiant pobl sy'n byw yng Nghymru er mwyn helpu i ddatblygu polisïau a'u rhoi ar waith. Mae cwestiynau ynghylch llesiant hefyd wedi'u cynnwys er mwyn caniatáu i ni edrych ar ganlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl (ee a yw llesiant yn effeithio ar farn pobl am wasanaethau cyhoeddus). |
| IntHhHave IntHhMob IntBB1 IntSpdSat, IntPersUse IntOut | Cysylltiad â'r rhyngrwyd (mynediad / argaeledd a boddhad yr ymatebydd) | • Casglu gwybodaeth ynghylch y ffordd y mae'r ymatebydd yn cyrraedd at y rhyngrwyd<br>• Casglu gwybodaeth am argaeledd y rhyngrwyd a mesur lefelau boddhad â chyflymder cysylltiad rhyngrwyd y cartref (lle bo'n berthnasol)<br><br>Bydd y cwestiynau yn darparu gwybodaeth ynghylch y ffordd y mae pobl Cymru yn defnyddio'r rhyngrwyd, a pha mor fodlon y maen nhw â chyflymder cysylltiad rhyngrwyd eu cartrefi. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, byddant yn cael eu defnyddio i weld pa grwpiau sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd; ac i ddeall y defnydd o fand eang cyflym iawn. |

| | | |
|---|---|---|
| IntFrqAcc<br>IntHlp<br>IntSkills | Hyder yn defnyddio'r rhyngrwyd | • Casglu gwybodaeth am sgiliau a hyder yr ymatebydd wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd, yn ogystal â pha mor aml mae'n defnyddio'r rhyngrwyd<br><br>Bydd y canlyniadau yn helpu Llywodraeth Cymru i gynorthwyo mwy o bobl i fynd ar-lein. Wrth i fwy a mwy o wasanaethau symud ar-lein, mae pobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd yn colli cyfleoedd y gall y rhyngrwyd eu cynnig. Gall hyn gynnwys cyrraedd at nwyddau/gwasanaethau rhatach ar-lein, lleihau unigrwydd, helpu i fyw yn annibynnol, a chyrraedd at wasanaethau cyhoeddus mwy cyfleus ar-lein. Gall gwella lefelau defnydd pwrpasol o'r rhyngrwyd helpu dinasyddion a chymunedau i oresgyn rhai o'r anfanteision sy'n eu hwynebu. |
| IntGovUse2<br>IntGovUseOT<br>IntGovRec<br>IntGovSat | Gwefannau gwasanaethau cyhoeddus | • Casglu gwybodaeth am wefannau gwasanaethau cyhoeddus y mae'r ymatebydd yn eu defnyddio<br>• Mesur boddhad â'r gwefannau gwasanaethau cyhoeddus a ddefnyddir<br><br>Bydd y canlyniadau yn helpu Llywodraeth Cymru i adrodd ar y defnydd o wasanaethau sector cyhoeddus ar-lein yn 2017-18, cyfrannu at ymyraethau i wella a datblygu gwasanaethau cyhoeddus newydd ar-lein, ac annog defnydd ehangach o wasanaethau o'r fath. |

| | | |
|---|---|---|
| Tenure<br>HSat<br>LldRepSat<br>LldTenSat<br>HomeRep<br>ResTme<br>Bedroom | Deiliadaeth a boddhad â llety, nodweddion / cyflwr tai, Cyfnod yn byw yn y cyfeiriad | • Cadarnhau a yw'r ymatebydd yn denant neu'n berchen-feddiannydd<br>• Mesur boddhad â llety<br>• Mesur boddhad â'r ffordd y mae'r denantiaeth yn cael ei rheoli (lle bo'n berthnasol)<br>• Casglu gwybodaeth ynghylch maint a chyflwr y llety<br>• Cadarnhau ers pryd mae'r ymatebydd wedi bod yn byw yn y cyfeiriad<br><br>Bydd y canlyniadau yn helpu Llywodraeth Cymru i benderfynu a yw Deddf Tai (Cymru) 2014 yn arwain at welliant o ran rheolaeth a chyflwr eiddo wedi'u rhentu'n breifat. Roedd y ddeddfwriaeth hon yn cyflwyno mesurau rheoleiddio newydd i landlordiaid ac asiantau sy'n rheoli eiddo sy'n cael eu rhentu'n breifat. Lluniwyd y mesurau hyn i wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth landlordiaid am eu rhwymedigaethau a'u cyfrifoldebau cyfreithiol er mwyn codi safonau. Mae'r cwestiwn ynghylch nifer yr ystafelloedd gwely i'w gweld yn y modiwl i gefnogi'r Arolwg Cyflwr Tai newydd. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i helpu Llywodraeth Cymru i gadarnhau a yw'r anheddau wedi'u gorlenwi. Nid yw'r canlyniadau'n cael eu defnyddio i adnabod unigolion nac anheddau penodol o gwbl. |
| SafeFire<br>SmkAlmNum<br>SmkAlmTst1<br>SmkRm | Diogelwch tân domestig | • Casglu gwybodaeth am larymau mwg ac arferion smygu y tu mewn i'r eiddo<br>• Mesur canfyddiad yr ymatebydd o ddiogelwch tân o fewn yr eiddo<br><br>Ychydig o ddata sydd ar gael ynghylch ymwybyddiaeth o beryglon tân, ac mae nifer y rhai sy'n cael eu hanafu mewn tanau mewn anheddau yn parhau i fod yn uchel, felly bydd y canlyniadau hyn yn darparu cipolwg gwerthfawr ar ddiogelwch tân domestig yng Nghymru. Bydd y canlyniadau'n helpu Llywodraeth Cymru i lunio rhaglenni diogelwch tân newydd yn ogystal â gwerthuso rhaglenni diogelwch tân sydd eisoes yn bodoli, sy'n cael eu cynnal gan yr Awdurdodau Tân ac Achub. |

| | | |
|---|---|---|
| HazNoise<br>HazNoiseC<br>HazNoiseCOT | Peryglon – sŵn | • Casglu gwybodaeth ynghylch achosion o darfu gan synau sy'n dod o'r tu allan i'r eiddo, a'r math o ffynhonnell<br><br>Mae Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd o bob cwr o Gymru wedi adrodd bod cwynion niwsans statudol am sŵn gan gymdogion yn aml yn cael eu hachosi gan inswleiddio annigonol rhwng eiddo. Mae'r canlyniadau'n ceisio helpu Llywodraeth Cymru i ddeall graddfa'r broblem yng Nghymru, a chyfrannu at newidiadau posib i safonau inswleiddio rhag sŵn ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall. |
| FuelSwitch<br>InstEnDn<br>InstEnDnOT<br>InstEnFinSup<br>InstEnFinSupOT<br>InstEnWnt<br>InstEnWntOT<br>InstEnNWhy<br>InstEnNWhyOT | Mesurau arbed ynni | • Casglu gwybodaeth am fesurau sy'n cael eu cymryd gan yr ymatebydd i arbed ynni yn yr eiddo, ac unrhyw gymorth ariannol a geir i wneud hynny<br>• Pennu pa welliannau arbed ynni yr oedd yr ymatebydd yn bwriadu eu gwneud i'r eiddo, ond methu gwneud hynny, a'r mathau o rwystrau a wynebwyd<br><br>Bydd y canlyniadau hyn yn help i fesur lefelau tlodi tanwydd yng Nghymru, ac yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall pa aelwydydd sydd angen cymorth fwyaf drwy gynlluniau arbed ynni. Hefyd bydd y canlyniadau yn cael eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn Strategaeth Tlodi Tanwydd (2010) i ddileu tlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni mewn anheddau. |
| LAServ<br>LAInfoCh<br>LABudget<br>LAPrtOpp | Awdurdodau Lleol | • Mesur barn yr ymatebydd am y gwasanaethau a'r wybodaeth sydd ar gael gan awdurdodau lleol, a pha mor hawdd yw cyrraedd atynt<br>• Mesur barn yr ymatebydd ynghylch i ba raddau y gellir cyfrannu at / bod yn rhan o broses benderfynu yr awdurdod lleol<br><br>Gyda gwaith yn mynd rhagddo i ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru. Bydd y canlyniadau yn helpu Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i ddeall effaith y newidiadau hyn ar y boblogaeth leol. Bydd y cwestiynau yn darparu gwybodaeth am farn pobl am wasanaethau lleol. |

| | | |
|---|---|---|
| LocServAv<br>LocServGet<br>LocServFac | Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau | • Casglu gwybodaeth am y gwasanaethau a'r cyfleusterau lleol sydd ar gael<br>• Mesur boddhad yr ymatebydd ag ansawdd gwasanaethau a'r cyfleusterau lleol sydd ar gael<br><br>Bydd y cwestiynau yn darparu gwybodaeth am y graddau y mae gan bobl fynediad at wasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen arnynt i wella a hyrwyddo llesiant yng Nghymru (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). |
| PlayOppXPar<br>PlayOppU11<br>PlayOppBarU<br>PlayOppBarUOT<br>PlayClubU11<br>PlayOppO11<br>PlayOppBarO<br>PlayOppBarOOT<br>PlayClubO11 | Chwarae | • Mesur boddhad yr ymatebydd â darpariaeth a diogelwch meysydd chwarae dan do ac awyr agored, clybiau a gweithgareddau wedi'u trefnu i blant sydd ar gael yn yr ardal leol<br><br>Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i gyflwyno deddfwriaeth ynghylch chwarae, ac fe fydd y canlyniadau yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall ac asesu effeithiolrwydd Cynlluniau Gweithredu ar Chwarae. Bydd y dystiolaeth hon yn helpu i adeiladu darlun o'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael yng Nghymru a'r boddhad â nhw, ac yn cyfrannu at unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol i wella mynediad at gyfleoedd i chwarae ar draws Cymru. |
| UNCRC | Hawliau plant | • Casglu gwybodaeth am ymwybyddiaeth yr ymatebydd o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).<br><br>Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gosod 54 o erthyglau sy'n cwmpasu pob agwedd o fywyd plentyn: yr hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y mae hawl gan bob plentyn eu cael. Mae erthygl 42 o'r CCUHP yn datgan y dylai llywodraethau wneud yn siŵr bod oedolion a phlant fel ei gilydd yn gwybod am y Confensiwn. Bydd y canlyniadau yn waelodlin i fesur ymwybyddiaeth o hawliau plant ymysg oedolion, ac yn helpu i gyfrannu at unrhyw gamau sy'n ofynnol i godi ymwybyddiaeth ymhellach. |

| | | |
|---|---|---|
| EdConf<br>EdOverSat | Hyder a bodlonrwyddyn gyda'r system addysg | • Casglu gwybodaeth am hyder a boddhad rhieni â'r system addysg yng Nghymru<br><br>Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio wrth greu adolygiadau cynnydd ar gyfer y system addysg yng Nghymru. Bydd y cwestiynau yn darparu gwybodaeth am y prif feysydd sy'n ysgogi hyder pobl yn y system addysg, er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall pa sectorau y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt i godi hyder ymhellach. |
| PsChildAtt,<br>PsWhich,<br>PsFeePay | Ysgolion cynradd | • Casglu gwybodaeth ynghylch a yw plentyn yr ymatebydd yn mynychu ysgol gynradd ac, os felly, pa ysgol mae'n ei mynychu (er mwyn medru cymharu canlyniadau â data gweinyddol sy'n cael ei dal am ysgolion)<br>• Cadarnhau pa ymatebwyr y dylid eu cyfeirio at fodiwlau am addysg gynradd yn hwyrach yn yr arolwg<br><br>Bydd y canlyniadau yn cael eu defnyddio i nodi materion a mesur cynnydd.<br><br>Os oes mwy nag un plentyn oed cynradd yn y cartref, caiff un plentyn ei ddewis ar hap, ac ni fydd y cwestiynau'n cael eu hailadrodd ar gyfer y plant eraill. Y bwriad yw cyflymu'r cyfweliad ac atal yr ymatebydd rhag diflasu.<br><br>Nid yw'r cwestiynau'n cael eu defnyddio i adnabod unigolion o gwbl. |
| PsSchSat<br>PsChldNds<br>PsPrepStg<br>PsWellR<br>PsCurric<br>PsDevS<br>PsALN<br>PsState<br>PsStateOT | Boddhad rhieni ag ysgolion cynradd | • Mesur boddhad rhieni â'r ysgol gynradd y mae'r plentyn yn ei mynychu (ee i ba raddau y mae'r ysgol yn cyflawni anghenion addysgol unigol y plentyn)<br><br>Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi wrth ochr ffynonellau data eraill (adroddiadau arolygu, canlyniadau arholiadau ac ati) ac yn darparu gwybodaeth am ansawdd gwasanaethau addysg gynradd yng Nghymru. |

| | | |
|---|---|---|
| SsChildAtt, SsWhich, SsFeePay | Ysgolion uwchradd | • Casglu gwybodaeth ynghylch a yw plentyn yr ymatebydd yn mynychu ysgol uwchradd ac, os felly, pa ysgol mae'n ei mynychu (er mwyn medru cymharu canlyniadau â data gweinyddol sy'n cael ei dal am ysgolion)<br>• Cadarnhau pa ymatebwyr y dylid eu cyfeirio at fodiwlau am addysg uwchradd yn hwyrach yn yr arolwg<br><br>Bydd y canlyniadau yn cael eu defnyddio i nodi materion a mesur cynnydd. |
| SsSchSat SsChldNds SsPrepStg SsWellR SsALN SsState SsStateOT | Boddhad rhieni ag ysgolion uwchradd | • Mesur boddhad rhieni â'r ysgol uwchradd y mae'r plentyn yn ei mynychu (ee i ba raddau y mae'r ysgol yn cyflawni anghenion addysgol unigol yn plentyn)<br><br>Bydd y canlyniadau yn cael eu defnyddio i nodi materion a mesur cynnydd. |
| EdResp | Cyfrifoldeb dros addysg | • Cadarnhau barn rhieni ynghylch pwy maen nhw'n ei ddal yn gyfrifol am addysg plentyn<br><br>Mae tystiolaeth flaenorol wedi dangos bod cysylltiad rhieni ag addysg eu plant yn cynyddu'n sylweddol y tebygrwydd y bydd y plant yn llwyddo yn yr ysgol. Bydd y canlyniadau yn helpu Llywodraeth Cymru i benderfynu ar unrhyw newidiadau yn lefelau cysylltiad rhieni, a nodi os oes angen unrhyw gymorth pellach. |

| | | |
|---|---|---|
| Device<br>DeviceOT<br>TvTmWd<br>TvTmWe<br>DeviceTmWd<br>DeviceTmWe<br>DeviceTmPar<br>DeviceTab<br>DeviceTabOT<br>DeviceLap<br>DeviceLapOT<br>DeviceTmWd<br>DeviceTmWe<br>DeviceTmPar<br>DeviceTab<br>DeviceTabOT<br>DeviceLap<br>DeviceLapOT | Amser o flaen sgrin i'r plentyn | • Casglu gwybodaeth gan rieni am faint o amser mae'r plentyn yn ei dreulio yn gwylio'r teledu neu ddefnyddio dyfeisiau electronig yn ystod yr wythnos/penwythnos, a faint o hyn sy'n digwydd yng nghwmni rhiant.<br>• Cadarnhau pa fath o ddyfeisiau mae'r plentyn yn eu defnyddio a'r math o weithgareddau y mae'r plentyn yn eu gwneud gan ddefnyddio'r dyfeisiau hynny (ee pori gwefannau, chwarae gemau ac ati)<br><br>Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i gael gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae plant yn defnyddio dyfeisiau electronig yng Nghymru, ac i ba raddau y mae eu rhieni yn ymwneud â nhw yn ystod y cyfnod sy'n cael ei dreulio o flaen sgrin. Gydag ychydig o data ar gael ynghylch sut mae plant Cymru'n defnyddio dyfeisiau electronig, mae canllawiau rhianta presennol yn argymell cyfyngu'r amser y mae plant yn ei dreulio o flaen sgrin, yn arbennig i'r rhai 5 oed ac iau. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod modd gwneud yn iawn am rywfaint o effeithiau negyddol treulio gormod o amser o flaen sgrin os yw'r rhieni'n cymryd rhan, er enghraifft sgwrsio gyda'r plentyn am yr hyn sy'n digwydd ar y teledu. Bydd y canlyniadau sy'n cael eu casglu yn helpu i lunio canllawiau i athrawon a rhieni, yn ogystal â helpu i fonitro cynnydd yn erbyn Fframwaith Canlyniadau Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hynny, gall y canlyniadau helpu i adolygu polisïau fel Llwybr Gordewdra Cymru a Newid am Oes a chyfrannu at broses benderfynu Iechyd Cyhoeddus Cymru.<br><br>Os oes mwy nag un plentyn 1-7 oed yn y cartref, bydd un plentyn yn cael ei ddewis ar hap fel testun y cwestiynau. Nid yw'r modiwl yn cael ei ailadrodd ar gyfer plant cymwys eraill yn y cartref. Mae hyn yn helpu i gyflymu'r cyfweliad ac atal yr ymatebydd rhag blino. |

| | | |
|---|---|---|
| CActMon<br>CActTue<br>CActWed<br>CActThu<br>CActFri<br>CActSat<br>CActSun | Gweithgarwch corfforol plentyn | • Casglu gwybodaeth gan rieni am weithgarwch corfforol y plentyn yr wythnos flaenorol, yn ôl diwrnodau'r wythnos<br><br>Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i ddeall faint o weithgarwch corfforol mae plant yn ei wneud bob wythnos, er mwyn adnabod achosion gordewdra ymysg plant Cymru. |
| CFruit<br>CVeg<br>CDCoke<br>CCoke | Deiet y plentyn | • Casglu gwybodaeth gan rieni am faint o ffrwythau, llysiau a diodydd byrlymog y mae'r plentyn wedi'u bwyta neu yfed yn yr wythnos flaenorol<br><br>Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i ddeall beth mae plant yn ei fwyta, er mwyn adnabod achosion o ordewdra ymysg plant yng Nghymru. |
| GenHealth | Iechyd cyffredinol | • Casglu data am asesiad pobl ynghylch eu hiechyd cyffredinol eu hunain<br><br>Mae'r wybodaeth hon yn rhoi cyd-destun ar gyfer amrywiol gynlluniau cyflawni iechyd. Bydd y canlyniadau hefyd yn caniatáu ar gyfer dadansoddi yn ôl statws iechyd (ee ydi statws iechyd pobl yn effeithio ar eu profiad o wasanaethau cyhoeddus?). Nid yw'r cwestiynau'n cael eu defnyddio i adnabod unigolion o gwbl. |
| HtImpMet,<br>HtMet,<br>HtImp,<br>Pregnant<br>WtImpMet,<br>WtMet,<br>WtImp | BMI | • Cofnodi gwybodaeth am daldra a phwysau'r ymatebydd<br>• Defnyddir Beichiog i osgoi cyfeirio menywod beichiog at gwestiynau ynghylch pwysau<br><br>Bydd y canlyniadau yn caniatáu ar gyfer cyfrifiadau Mynegai Màs y Corff er mwyn helpu i asesu lefelau pwysau corff iach a gordewdra yng Nghymru. Defnyddir yr wybodaeth yn helaeth hefyd gan bartneriaid (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill), i ddatblygu strategaethau, monitro cynnydd a gweithredu ar faterion iechyd y cyhoedd. |

| | | |
|---|---|---|
| LongIll, | Salwch hirdymor | • Casglu gwybodaeth ynghylch a yw'r ymatebydd yn dioddef o unrhyw salwch neu gyflyrau hirdymor<br><br>Mae'r wybodaeth hon yn rhoi cyd-destun ar gyfer amrywiol gynlluniau cyflawni iechyd, ac mae hefyd yn cael ei defnyddio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Hefyd mae'r cwestiynau wedi'u cynnwys er mwyn caniatáu i ni edrych ar ganlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl. Er enghraifft, oes gan bobl ag anableddau wahanol brofiadau/barn am wasanaethau cyhoeddus? Nid yw'r cwestiynau'n cael eu defnyddio i adnabod unigolion o gwbl. |
| Disab1-6, DisabLimit1-6, DisabAnoth1-5 | Anabledd / Salwch | • Adnabod unrhyw salwch neu anableddau penodol y mae'r ymatebydd yn dioddef ohonynt<br>• Cadarnhau i ba raddau mae pob salwch neu anabledd yn cyfyngu ar fywyd yr ymatebydd o ddydd i ddydd<br><br>Bydd y canlyniadau'n darparu manylion ychwanegol i atebion yr ymatebydd yn LongIll. |
| LngIllAdptR SCAccom2R SCAccomWhyR SCAccomWhyROT LongIllHh LongIllLimitHh LngIllAdptHh SCAccom2Hh SCAccomWhyHh SCAccomWhyHhOT | Addasiadau i bobl anabl – ymatebydd, Salwch hirdymor pobl eraill yn y cartref, Addasiadau i bobl anabl – y cartref | • Gofynnir i bob aelod o'r cartref gadarnhau a oes gan unrhyw un gyflwr iechyd corfforol/meddyliol sy'n para am 12 mis neu fwy, a dweud sut mae hyn yn effeithio ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd<br>• Cadarnhau a oes angen addasu cartref yr ymatebydd yn sgil salwch neu gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol<br>• Mesur boddhad yr ymatebydd ag addasrwydd y llety ac unrhyw resymau dros beidio â'i ystyried yn addas<br><br>Bydd y canlyniadau'n help i ddeall a oes gan bobl ag anableddau fynediad at lety sy'n diwallu eu hanghenion. Bydd y canlyniadau yn ategu'r Arolwg o Dystiolaeth ar Gyflwr Tai, ac yn cael eu defnyddio i fonitro effaith y Grant Cyfleusterau i'r Anabl. |

| | | |
|---|---|---|
| Carer<br>CarerHrs | Gofalwyr (gwirfoddol) | • Cadarnhau a yw'r ymatebydd yn darparu gofal anffurfiol i aelodau o'r teulu, ffrindiau neu gymdogion a chasglu gwybodaeth am nifer yr oriau yr wythnos sy'n cael eu treulio'n gwneud hyn (lle bo'n berthnasol)<br><br>Bydd y canlyniadau yn help i ddeall patrymau gwirfoddoli anffurfiol yng Nghymru. Mae gwirfoddoli anffurfiol yn elfen o lesiant, ac fe fydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| GpSeenDr, GpOverSat GpNSeenDr, GpNSeenDr2 GpAppoint, GpAppEase, GpAppDif1, GpAppDif2, GpAppDif3, GpAppDif4, GpAppDif5, GpAppDif6, GpAppDif7, GpAppDif8, GpAppDifOth, GpAppDifOT, GpAppDifQna, GpAppDifSna, GpAppDifDk, GpAppDifRef GpAppDifOT GpAppDifTim | Gwasanaethau meddyg teulu | • Cadarnhau a yw'r ymatebydd wedi cael apwyntiad gydag ymarferydd cyffredinol / meddyg teulu dros y 12 mis diwethaf a mesur boddhad â'r gofal a dderbyniwyd (lle bo'n berthnasol)<br>• Cadarnhau'r rheswm pam na welodd yr ymatebydd feddyg teulu, ac a oedd hyn yn sgil anhawster cael apwyntiad (lle bo'n berthnasol)<br>• Casglu gwybodaeth ynghylch canfyddiad yr ymatebydd am hwylustod gwneud apwyntiad meddyg teulu ar adeg gyfleus, rhesymau pam oedd yr ymatebydd wedi gweld hyn yn anodd (lle bo'n briodol) a'r adegau a fyddai wedi bod yn gyfleus<br><br>Bydd y canlyniadau yn help i ddeall barn pobl am y gofal a dderbyniwyd gan eu meddyg teulu a hwylustod gwneud apwyntiad ar adeg sy'n gyfleus iddynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried barn defnyddwyr gofal iechyd wrth fesur perfformiad y GIG yng Nghymru, ac fe fydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro perfformiad yn erbyn Fframwaith Canlyniadau'r GIG Llywodraeth Cymru. Bydd y fframwaith yn helpu i nodi meysydd lle gwelir perfformiad da yn ogystal â meysydd lle bo angen newidiadau a gwelliannau. Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei chasglu ynghylch hwylustod gwneud apwyntiad meddyg yn help i ddeall y materion sy'n codi, ac yn cyfrannu at gamau gweithredu i wella mynediad at wasanaethau meddyg teulu cyfleus. |

| | | |
|---|---|---|
| HspHadApp, HspPatType, HspOverSat | Ysbytai | • Cadarnhau a oedd gan yr ymatebydd apwyntiad mewn ysbyty'r GIG yn y 12 mis diwethaf, a'r math o apwyntiad (lle bo hyn yn berthnasol)<br>• Mesur boddhad yr ymatebydd â'r gofal a dderbyniwyd<br><br>Bydd y canlyniadau yn help i ddeall barn pobl am y gofal a dderbyniwyd yn ysbytai'r GIG. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried barn defnyddwyr gofal iechyd wrth fesur perfformiad GIG Cymru, ac fe fydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro perfformiad yn erbyn Fframwaith Canlyniadau'r GIG Llywodraeth Cymru. Bydd y fframwaith yn helpu i nodi meysydd lle gwelir perfformiad da yn ogystal â meysydd lle bo angen newidiadau a gwelliannau. |
| HOfferWL HChsWL HAskWL HAppWL HPrefWLRec | Defnyddio gwasanaethau iechyd Cymraeg | • Cadarnhau a yw'r ymatebydd wedi cael cynnig rhagweithiol o driniaeth yn Gymraeg wrth gysylltu â gwasanaethau iechyd<br>• Cadarnhau a gafodd yr ymatebydd gynnig triniaeth yn Gymraeg yn yr apwyntiad diweddaraf ar ôl gofyn am hyn yn ystod apwyntiad blaenorol (lle bo'n berthnasol)<br><br>Bydd canlyniadau'r arolwg yn helpu Llywodraeth Cymru, GIG Cymru, a gwasanaethau gofal cymdeithasol i ddeall a yw pobl yn cael cynnig rhagweithiol i dderbyn gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ac a yw eu dewis yn cael ei gofio mewn apwyntiadau dilynol. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth o'r angen am unrhyw gamau gweithredu i roi sylw i feysydd lle nad yw hyn yn digwydd, a helpu i sicrhau bod y gefnogaeth gywir ar gael i ateb y galw. |

| | | |
|---|---|---|
| NonGPServs<br>NonGpAdv | Gwasanaethau gofal sylfaenol ac eithrio meddygon teulu | • Cadarnhau pa fath(au) o wasanaethau gofal sylfaenol ar wahân i feddygon teulu a gwasanaethau cynghori ynghylch gofal iechyd a gafodd eu defnyddio gan yr ymatebydd dros y 12 mis diwethaf.<br><br>Bydd canlyniadau'r arolwg yn help i ddeall sut mae patrymau defnydd o wasanaethau yn amrywio dros amser ac ar draws is-grwpiau o'r boblogaeth. Bydd hyn yn darparu tystiolaeth ynghylch a yw pobl yn gwneud defnydd llawn o'r gwasanaethau sydd ar gael, ac yn ei dro yn cyfrannu at gamau gweithredu yn y dyfodol gyda'r nod o annog pobl i ddefnyddio'r gwasanaethau cywir ar gyfer eu hanghenion. Un o brif nodau Cynllun Gofal Sylfaenol cenedlaethol Llywodraeth Cymru yw i bobl gael mynediad amserol a hwylus at amrywiaeth eang o wasanaethau iechyd a gweithwyr iechyd proffesiynol, gan gynnwys cysylltiad wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar-lein. |
| NPMedType<br>PMed | Meddyginiaethau | • Casglu gwybodaeth am y math o feddyginiaethau heb bresgripsiwn y prynodd yr ymatebydd dros y pedair wythnos ddiwethaf<br><br>Bydd y canlyniadau'n helpu i fonitro'r ddarpariaeth o grwpiau penodol o feddyginiaethau, ac yn edrych i weld a oes angen polisïau newydd ar ddarpariaeth mathau penodol o feddyginiaethau. Bydd y canlyniadau hyn yn cael eu defnyddio i adolygu polisïau ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol a mathau penodol o feddyginiaethau. Er enghraifft, bydd gwybodaeth ynghylch y defnydd o feddyginiaethau llysieuol yn cyfrannu at benderfyniadau ynghylch sut i reoleiddio'r meddyginiaethau hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| Veg1, Salad, Potato, Pulses, Veg2, VegDish, Fruit, FruitVS, FruitS, FruitM, FruitL, FruitVL, FruitFrzTin, FruitDried, FruitDish, FruitJuice | Deiet | • Holi faint o wahanol fathau o ffrwythau a llysiau a fwytodd yr ymatebydd ddoe.<br><br>Bydd y canlyniadau hyn yn darparu gwybodaeth ynghylch cyfran y bobl sy'n gwneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw (gan gynnwys bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau y dydd), fel rhan o ddangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.  Defnyddir yr wybodaeth yn helaeth hefyd gan bartneriaid (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill), i ddatblygu strategaethau, monitro cynnydd a gweithredu ar faterion iechyd y cyhoedd. |
| DnNow, DnOcc, DnEv, DnCond | Defnydd o alcohol | • Cadarnhau a yw'r ymatebydd yn yfed alcohol neu beidio<br>• Pennu'r rhesymau dros beidio ag yfed alcohol (os yn berthnasol)<br><br>Bydd y canlyniadau yn help i ddeall sut mae pobl Cymru'n defnyddio alcohol. Mae'r cwestiynau ynghylch defnyddio alcohol yn gwestiynau safonol sy'n cael eu holi mewn nifer o arolygon iechyd sefydledig, fel yr Arolwg Iechyd ar gyfer Lloegr. Mae hyn yn caniatáu i ni fonitro lefelau cyfnewidiol o ddefnyddio alcohol ar draws poblogaeth y DU.<br><br>Mae cyfran y bobl sy'n gwneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw (gan gynnwys peidio ag yfed mwy na'r canllawiau sy'n cael eu hargymell) yn ddangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r cwestiynau hyn yn cael eu defnyddio (gyda chwestiynau eraill am ddefnyddio alcohol isod) i fesur y dangosydd hwn. Mae'r wybodaeth hefyd yn cael ei defnyddio'n helaeth gan bartneriaid (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill) i ddatblygu strategaethau, monitro cynnydd a gweithredu ar faterion iechyd y cyhoedd. |

| | | |
|---|---|---|
| DnFreq, Dn7d, Dn7dN, DnSame, Dn7dMost, DnType, DnBrMeas, DnBrHalf, DnBrSmC, DnBrLgC, DnBrBot, DnStBrMeas, DnStBrHalf, DnStBrSmC, DnStBrLgC, DnStBrBot, DnSpir, DnSher, DnWineMeas, DnWineBot, DnWineLgG, DnWineStG, DnWineSmG, DnApMeas, DnApSmC, DnApStBot, AnApLgBot, DnOthTyp1, DnOthAmt1, DnOth1, DnOthTyp2, DnOthAmt2, DnOth2, DnOthTyp3, DnOthAmt3 | Defnydd o alcohol - y 7 diwrnod diwethaf | • Casglu gwybodaeth am faint o'r wahanol fathau o alcohol a yfwyd gan yr ymatebydd **yn y 7 diwrnod diwethaf**<br><br>Bydd y canlyniadau yn darparu hunanasesiad cywir o'r hyn a yfwyd yn yr wythnos ddiwethaf, gan ei bod yn gymharol hawdd i ymatebwyr gofio yn ôl i gyfnod mor ddiweddar. Bydd hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall pa gyfran o bobl sy'n gwneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw (gan gynnwys peidio ag yfed mwy na'r canllawiau sy'n cael eu hargymell), sy'n ddangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| DnOftBr, DnUBrMeas, DnUBrHalf, DnUBrSmC, DnUBrLgC, DnUBrBot, DnOftStBr, DnUStBrMeas, DnUStBrHalf, DnUStBrSmC, DnUStBrLgC, DnUStBrBot, DnOftSpir, DnUSpir, DnOftSher, DnUSher, DnOftWine, DnUWine, DnUWineMeas, DnOftApop, DnUApopMeas, DnUApopSmC, DnUApopStBot, DnUApopLgBot, | Defnydd o alcohol - y defnydd arferol dros y 12 mis diwethaf | • Casglu gwybodaeth am faint o'r wahanol fathau o alcohol a yfwyd gan yr ymatebydd yn **y 12 mis diwethaf**<br><br>Bydd y canlyniadau yn darparu hunanasesiad o'r arferion yfed arferol dros gyfnod hwy na dim ond y 7 diwrnod diwethaf, ac yn help i ddeall pa gyfran o'r bobl sy'n gwneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw (gan gynnwys peidio ag yfed mwy na'r canllawiau sy'n cael eu hargymell), dangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd yr wybodaeth hon yn rhoi syniad da o'r tueddiadau ynghylch defnydd o alcohol mewn gwahanol grwpiau oedran, rhyw ac ardaloedd, ac yn cefnogi datblygiad y Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a chynlluniau cyflawni ategol. |

| | | |
|---|---|---|
| Smoke, EcigEv, EcigNow, EcigOft, | Smygu a defnyddio e-sigarét | • Casglu gwybodaeth am ba mor aml mae'r ymatebydd yn smygu, a yw'r ymatebydd yn defnyddio e-sigarét a pha mor aml mae'n gwneud hynny (lle bo'n briodol)<br><br>Bydd y canlyniadau yn help i ddeall pa gyfran o bobl sy'n gwneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw (gan gynnwys peidio â smygu), dangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae defnydd o e-sigarét yn faes sy'n datblygu, ac fe fydd yr wybodaeth yn yr adran hon yn help i ddeall a monitro'r defnydd o'r fath ddyfeisiau. Defnyddir yr wybodaeth yn helaeth hefyd gan bartneriaid (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill), i ddatblygu strategaethau, monitro cynnydd a gweithredu ar faterion iechyd y cyhoedd. |

| | | |
|---|---|---|
| Walk, WalkMon, WalkTue, WalkWed, WalkThu, WalkFri, WalkSat, WalkSun WalkTime, WalkPace, WalkSweat, ModAct, ModActMon, ModActTue, ModActWed, ModActThu, ModActFri, ModActSat, ModActSun ModActTime, VigAct, VigActMon, VigActTue, VigActWed, VigActThu, VigActFri, VigActSat, VigActSun VigActTime | Gweithgarwch corfforol | • Cadarnhau'r diwrnodau yn yr wythnos ddiwethaf pan gerddodd yr ymatebydd am 10 munud neu fwy, yr amser a dreuliwyd yn cerdded ar gyfartaledd ar y diwrnodau hynny, y math o gerdded (araf / cymedrol / gweddol gyflym / cyflym iawn) a'r effaith a gafodd hyn ar gyfradd anadlu'r ymatebydd.<br>• Cadarnhau'r diwrnodau yn yr wythnos ddiwethaf pan wnaeth yr ymatebydd weithgarwch corfforol cymedrol ac egnïol, a’r amser a dreuliwyd yn gwneud hynny ar gyfartaledd ar gyfer bob un o'r ddau (lle bo'n berthnasol)<br><br>Bydd y canlyniadau'n help i ddeall pa gyfran o bobl sy'n gwneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw (gan gynnwys ymarfer corff rheolaidd), dangosydd cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Defnyddir yr wybodaeth yn helaeth hefyd gan bartneriaid (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill), i ddatblygu strategaethau, monitro cynnydd a gweithredu ar faterion iechyd y cyhoedd. |

| | | |
|---|---|---|
| AtFrqBke, AtFrqWalk | Teithio Llesol | • Cadarnhau a yw pobl yn cerdded neu'n beicio fel ffordd o deithio<br><br>Defnyddir y canlyniadau i fonitro'r cynnydd yn erbyn Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n annog pobl i gerdded/beicio fel rhan o'u bywyd bob dydd, ee oedolion yn teithio i'r gwaith neu blant yn teithio i'r ysgol. |
| TxMstCtrl<br>TxHrdOf<br>TxInc<br>TxIncWG<br>TxIncXWG<br>TxVAT<br>TxVATWG<br>TxVATXWG<br>TxCoun<br>TxCounWG<br>TxCounXWG<br>TxStmp<br>TxStmpWG<br>TxStmpXWG<br>TxAlc<br>TxAlcWG<br>TxAlcXWG<br>TxAir<br>TxAirWG<br>TxAirXWG<br>TxLnd<br>TxLndWG<br>TxLndXWG<br>TxDevol | Datganoli Trethi | • Cadarnhau pa drethi mae'r ymatebydd wedi clywed amdanynt o'r blaen a phwy, ym marn yr ymatebydd, sydd â'r mwyaf o reolaeth dros lefelau'r trethi hynny<br>• Cadarnhau i ba raddau y mae’r ymatebydd yn meddwl bod gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros lefel y trethi hyn<br>• Cadarnhau pa dreth i mae'r ymatebydd yn meddwl y bydd Llywodraeth Cymru yn eu rheoli o 2018 ymlaen<br><br>Mae treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi wedi cael eu datganoli i Lywodraeth Cymru o fis Ebrill 2018 ymlaen; a threth incwm o fis Ebrill 2019 ymlaen.<br><br>Bydd y canlyniadau hyn yn help i asesu pa mor effeithiol yw strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu Trysorlys Cymru, drwy ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch faint o reolaeth sydd gan Lywodraeth Cymru dros wahanol drethi. Bydd hyn yn cyfrannu at lunio gohebiaeth â'r cyhoedd ynghylch polisi trethi. |

| | | |
|---|---|---|
| ADHol, ADDec, ADIns, ADMon, ADFur, FinBilCredNP, ADRep, ADSelf, ADHeat | Amddifadedd materol / cynhwysiant ariannol cartrefi | <ul><li>Cadarnhau os gall aelwyd yr ymatebydd fforddio:<ul><li>cael gwyliau oddi cartref am o leiaf wythnos y flwyddyn</li><li>cadw'r cartref mewn cyflwr priodol</li><li>cael yswiriant cynnwys cartref</li><li>arbed £10 neu fwy y mis</li><li>newid dodrefn sydd wedi treulio</li><li>dygymod â biliau ac ymrwymiadau credyd</li></ul></li></ul>Gofynnir cwestiynau ychwanegol i ymatebwyr y mae eu hatebion yn awgrymu eu bod ar y ffin rhwng 'difreintiedig' a 'breintiedig':<ul><li>cadarnhau os gall aelwyd yr ymatebydd fforddio:<ul><li>cyfnewid neu atgyweirio nwyddau trydanol mawr</li><li>cadw'r llety'n gynnes yn y gaeaf</li></ul></li><li>cadarnhau a oes gan yr ymatebydd swm bach o arian i'w wario ar ei hun bob wythnos</li></ul>Gofynnir y cwestiynau hyn er mwyn deall os gall bobl fforddio nwyddau a gweithgareddau bob dydd. Bwriad y cwestiynau amddifadedd materol yw gweld canlyniadau tlodi tymor hir ar gartrefi, yn hytrach na straen ariannol tymor byr. Mae modd dadansoddi canlyniadau yn unigol, ond y bwriad yn bennaf yw caniatáu ar gyfer cyfrifo mesur o amddifadedd materol aelwydydd i'w ddefnyddio i draws-ddadansoddi canlyniadau arolygon eraill.<br><br>Bydd y canlyniadau yn cyfrannu at ddull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi. Mae Strategaeth Tlodi Plant a Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru yn rhoi fframwaith ar gyfer gwella canlyniadau cartrefi incwm isel Cymru. Y nod yw lleihau tlodi, yn arbennig y tlodi parhaus ymysg rhai o'n pobl a'n cymunedau tlotaf, a lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn mynd yn dlawd. Un ffordd o fesur tlodi yw gofyn cwestiynau am amddifadedd materol.<br><br>Bydd gwybodaeth ynghylch sut mae pobl yn dygymod gyda'u dyledion/ymrwymiadau ariannol yn cael ei defnyddio i weithredu i helpu pobl mewn dyled. Er enghraifft, gweld sut y gellid hyrwyddo cyngor ar ddyled yn well i'r rhai sy'n debyg o'i angen.<br><br>Mae'r canlyniadau'n cael eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| OACook,<br>OADamp,<br>OAWarm,<br>FinBillCredP,<br>OATaxi,<br>OAHair,<br>OAFrnd,<br>OACookNt,<br>OAHomeNt,<br>OADampNt,<br>OAWarmNt,<br>OATaxiNt,<br>OAHairNt,<br>OAFrndNt,<br>OAMeal,<br>OAOut,<br>OAHol,<br>OAHeat,<br>OAPhon,<br>OACoat,<br>OAExpns,<br>OAHowPy,<br>MealNt,<br>OutNt,<br>HolNt,<br>HeatNt,<br>PhonNt,<br>CoatNt | Amddifadedd materol pensiynwyr mewn cartrefi | • Cadarnhau os gall ymatebydd fforddio:<br>○ newid y popty os yw'n torri / cael cartref rhydd rhag lleithder a'i gadw'n ddigon cynnes<br>○ dygymod â biliau ac ymrwymiadau credyd / medru defnyddio car / tacsi pryd bynnag bo angen<br>○ torri/trin gwallt yn rheolaidd / gweld ffrindiau/teulu o leiaf unwaith yr y mis<br>• Pennu'r rhesymau pam na all yr ymatebydd fforddio (lle bo'n briodol):<br>○ newid y popty os yw'n torri / cadw'r cartref mewn cyflwr da<br>○ dygymod â biliau ac ymrwymiadau credyd / medru defnyddio car / tacsi pryd bynnag bo angen<br>○ torri/trin gwallt yn rheolaidd / gweld ffrindiau/teulu o leiaf unwaith yr y mis<br><br>Gofynnir cwestiynau ychwanegol i ymatebwyr y mae eu hatebion yn awgrymu eu bod ar y ffin rhwng 'difreintiedig' a 'breintiedig':<br>• Cadarnhau os gall ymatebydd fforddio:<br>○ bwyta o leiaf un pryd maethlon y dydd<br>○ mynd allan yn gymdeithasol naill ai wrth ei hun neu gyda phobl eraill unwaith y mis<br>○ cael gwyliau oddi cartref am o leiaf wythnos y flwyddyn<br>○ cadw'r cartref mewn cyflwr da<br>○ defnyddio'r ffôn pan fo angen<br>○ cael cot gynnes sy'n dal glaw<br>○ talu gwariant annisgwyl o £200 ac os felly, sut<br>• Pennu'r rhesymau pam na all yr ymatebydd fforddio (lle bo'n briodol):<br>○ bwyta o leiaf un pryd maethlon y dydd<br>○ mynd allan yn gymdeithasol naill ai wrth ei hun neu gyda phobl eraill unwaith y mis<br>○ cael gwyliau oddi cartref am o leiaf wythnos y flwyddyn<br>○ cael system wresogi/trydan/plymio/draeniau sy'n gweithio / cael ffôn i'w ddefnyddio pryd bynnag y bo angen / cael cot gynnes sy'n dal glaw<br><br>Gofynnir cyfres arall o gwestiynau ynghylch amddifadedd i bensiynwyr. Y rheswm am hyn yw bod pensiynwyr yn llawer mwy tebygol o ddweud nad oes angen yr eitemau nad ydynt eu perchen pan fyddwn yn gofyn y cwestiynau safonol ynghylch amddifadedd. Datblygwyd y cwestiynau ynghylch amddifadedd pensiynwyr i sicrhau cywirdeb wrth fesur amddifadedd y grŵp hwn o bobl. Mae'r canlyniadau'n hanfodol ar gyfer deall y materion sy'n wynebu pobl oedran pensiwn sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru |

| | | |
|---|---|---|
| CDCoat, CDEqp, CDCel, CDAct, CDLes, CDVeg, CDBed, CDTea, CDPlay, CDTrp | Amddifadedd materol plant | • Holi os gall blentyn/plant yr ymatebydd fanteisio ar y canlynol:<br>    ○ cot gynnes ar gyfer y gaeaf<br>    ○ cyfarpar hamdden fel cyfarpar chwaraeon / beic<br>    ○ dathlu ar achlysuron arbennig fel pen-blwydd, Nadolig neu wyliau crefyddol eraill<br>    ○ mynd i o leiaf un gweithgarwch rheolaidd yr wythnos sy'n cael ei drefnu y tu allan i'r ysgol (grŵp chwaraeon neu grŵp ieuenctid)<br>    ○ dilyn hobi neu weithgaredd hamdden<br><br>Cwestiynau ychwanegol i ymatebwyr y mae eu hatebion yn awgrymu bod eu haelwydydd ar y ffin rhwng 'difreintiedig' a 'breintiedig':<br>• Holi os gall blentyn/plant yr ymatebydd fanteisio ar y canlynol:<br>    ○ ffrwythau a/neu lysiau ffres bob dydd<br>    ○ ystafell wely ei hun os yn 10 oed neu'n hŷn (rhannu ystafell â brawd neu chwaer o'r un rhyw yn unig)<br>    ○ gwahodd ffrindiau draw am de neu rywbeth bach i'w fwyta unwaith bob pythefnos<br>    ○ mynd i grŵp meithrin neu gylch chwarae o leiaf unwaith yr wythnos (lle bo'n berthnasol)<br>    ○ tripiau ysgol, os dros 6 oed<br><br>Gofynnir y cwestiynau hyn i bob rhiant ac i bensiynwyr sy'n warcheidwaid plant.  Bydd y canlyniadau'n helpu i gyfrifo nifer yr achosion o amddifadedd plant yng Nghymru.<br><br>Mae'r rhesymeg a'r dull ar gyfer holi cwestiynau yr un fath ag ar gyfer y cwestiynau safonol (gweler uchod). |

| | | |
|---|---|---|
| FPEv2d, FPSubMeal, | Tlodi bwyd | • Cadarnhau a yw aelwyd yr ymatebydd yn bwyta prydau cytbwys yn rheolaidd, ac a oedd unrhyw ddiwrnod yn y pythefnos diwethaf lle na wnaeth yr ymatebydd fwyta pryd sylweddol yn sgil prinder arian.<br><br>Bydd y canlyniadau'n helpu i fesur nifer yr achosion o dlodi bwyd yng Nghymru, a phennu nodweddion aelwydydd sy'n dioddef tlodi bwyd.<br><br>Bydd hyn yn cyfrannu at gamau i fynd i'r afael â thlodi bwyd, er enghraifft drwy gefnogi aelwydydd sydd mewn perygl o ddioddef tlodi bwyd i gynyddu incwm eu haelwydydd drwy gyrraedd at gyngor ar ddyledion a chyngor ariannol. |
| Disputes<br>DisputesOT<br>ProbOtcm<br>ProbSort<br>ProbSortOT<br>ProbGvUp<br>ProbGvUpOT<br>ProbNoth<br>ProbNothOT<br>AdvProb<br>AdvProbOT<br>ConJust | Problemau a chyngor | • Cadarnhau a yw'r ymatebydd wedi dioddef unrhyw broblemau neu anghydfodau yn y 12 mis diwethaf<br>• Cadarnhau sut yr aeth yr ymatebydd ati i ymdrin â'r problemau/anghydfodau mwyaf difrifol a ddaeth ar ei draws, a'r canlyniad (lle bo'n berthnasol)<br>• Deall pam na wnaeth yr ymatebydd unrhyw beth neu pam y rhoddodd y gorau i ymdrin â'r broblem/anghydfod mwyaf difrifol a ddaeth ar ei draws (lle bo'n berthnasol)<br>• Cadarnhau a gafodd yr ymatebydd gefnogaeth gan sefydliad sy'n darparu gwasanaethau cynghori<br>• Casglu gwybodaeth am ganfyddiad yr ymatebydd ynghylch y gwasanaethau cyfreithiol sydd ar gael<br><br>Bydd y canlyniadau yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall os oes gan bobl Cymru fynediad at wasanaethau cynghori priodol a fforddiadwy. Bydd hyn yn cyfrannu at y cynlluniau cyflawni ar gyfer y Strategaeth Gwasanaethau Cynghori a'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol (2016) ac yn helpu i fonitro cynnydd yn erbyn nodau cymdeithasol a llesiant. |

| | | |
|---|---|---|
| WelfAware<br>WelfEffect1<br>WelfEffect2<br>WelfEffect3<br>WelfEffect4 | Diwygio lles | • Pennu ymwybyddiaeth yr ymatebydd o newidiadau diwygio lles<br>• Mesur effaith ganfyddedig y newidiadau ar yr ymatebydd a'i aelwyd<br><br>Bydd y canlyniadau yn help i ddeall effaith diwygio lles ar bobl sy'n byw yng Nghymru. Hefyd bydd y canlyniadau yn helpu cyrff sector cyhoeddus i gymryd camau i liniaru effeithiau gwaethaf diwygio lles ar yr unigolion a'r cymunedau mwyaf agored i niwed yng Nghymru, er enghraifft drwy fentrau fel:<br>Cronfa Cymorth Dewisol<br>Cefnogaeth i wasanaethau cynghori rheng flaen<br>Rhaglen Cynhwysiant Digidol<br>Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor<br>Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol |
| VolType,<br>VolTime, | Gwirfoddoli | • Casglu gwybodaeth ynghylch pa mor aml mae'r ymatebydd wedi gwirfoddoli ac ym mha fath o sefydliadau neu glybiau<br><br>Bydd y canlyniadau yn help i ddeall patrymau gwirfoddoli yng Nghymru, er enghraifft pa fath o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithgarwch hwn a'r math o sefydliadau sy'n elwa o gael pobl yn rhoi o'u hamser yn rhad ac am ddim. Mae gwirfoddoli yn elfen o lesiant, ac fe fydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| ArtsAttEv<br>ArtsAttEvOT<br>ArtsWhy<br>ArtsFreq<br>ArtsPart<br>ArtsPartWhy<br>ArtsPartFreq | Mynychu a chymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol | • Casglu gwybodaeth ynghylch pa mor aml mae'r ymatebydd wedi mynychu a/neu gymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol, a'r math o ddigwyddiadau celfyddydol a fynychwyd / a gymerwyd rhan ynddynt<br>• Cadarnhau a wnaeth yr ymatebydd fynychu / cymryd rhan yn y digwyddiadau hyn fel rhan o waith gwirfoddol neu yn ystod ei amser hamdden<br><br>Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn dangosyddion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i fesur mynediad at weithgareddau celfyddydol a chymryd rhan ynddynt. |

| | | |
|---|---|---|
| HeritAtt<br>HeritWal<br>HeritWhy<br>HeritFreq<br>HeritXVisit<br>HeritXVisitOT | | • Casglu gwybodaeth am ba mor aml yr ymwelwyd â safleoedd treftadaeth yn y 12 mis diwethaf<br>• Cadarnhau pam na wnaeth yr ymatebydd ymweld â safle treftadaeth yn y 12 mis diwethaf (lle bo'n berthnasol)<br><br>Bydd y canlyniadau'n help i ddeall sut mae pobl yn defnyddio safleoedd treftadaeth a hanesyddol yng Nghymru, a chyfrannu at wella ac amrywio gwasanaethau mewn safleoedd treftadaeth a hanesyddol. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn dangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n mesur mynediad at weithgarwch treftadaeth a chymryd rhan ynddynt. |
| MusAtt<br>MusWal<br>MusWhy<br>MusFreq<br>MusRemot<br>MusXVisit<br>MusXVisitOT | | • Casglu gwybodaeth ynghylch ymweliadau ag amgueddfeydd dros y 12 mis diwethaf a pha mor aml oedd yr ymweliadau hynny<br>• Cadarnhau pam na wnaeth yr ymatebydd ymweld ag amgueddfa yn y 12 mis diwethaf (lle bo'n berthnasol)<br><br>Bydd y canlyniadau'n helpu i sicrhau bod yr adnoddau cyfyngedig yn cael eu cyfeirio mor effeithiol â phosib, ar adeg pan fo pwysau ar gyllidebau. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i helpu i fesur cynnydd yn erbyn dangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| LibAtt<br>LibWal<br>LibWhy<br>LibFreq<br>LibRecVisit<br>LibRecVisitOT<br>LibXVisit<br>LibXVisitOT | | • Casglu gwybodaeth ynghylch pa mor aml y defnyddiwyd gwasanaethau llyfrgell yn y 12 mis diwethaf<br>• Cadarnhau pam na wnaeth yr ymatebydd ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell yn y 12 mis diwethaf (lle bo'n berthnasol)<br><br>Bydd y canlyniadau yn helpu Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i ddeall sut mae pobl yn defnyddio gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, er enghraifft drwy eu dadansoddi yn ôl ardal ddaearyddol i weld a yw'r defnydd yn uwch neu'n is mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Bydd y canlyniadau hefyd yn cael eu defnyddio i fesur cynnydd polisi Cyfuno: Trechu Tlodi trwy Ddiwylliant Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio cynyddu'r defnydd o gyfleusterau diwylliannol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. |

| | | |
|---|---|---|
| ArchAtt<br>ArchWhy<br>ArchFreq | Archifau | • Casglu gwybodaeth am y defnydd o archifau a swyddfeydd cofnodion cyhoeddus yn y 12 mis diwethaf, a pha mor aml oedd hynny |
| SWFilter,<br>SWFilterLD | Chwaraeon Cymru – Cyfranogiad presennol a galw cudd, Cymryd rhan mewn chwaraeon - cwestiynau hidlo | • Casglu gwybodaeth am gymryd rhan neu fwriad i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon gan ymatebwyr 75 oed ac yn hŷn, neu 60 oed ac yn hŷn â chyflwr cyfyngus hirdymor.<br><br>Mae data arolygon blaenorol yn awgrymu bod cyfranogaeth gan y grwpiau hyn yn debyg o fod yn is na'r cyfartaledd. Os atebir yn negyddol, gellir symud ymlaen i'r adran CASI yn hytrach nag ateb y gyfres lawn o gwestiynau chwaraeon, gan ysgafnhau'r baich ar yr ymatebwyr hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| OAct4w, OAct4wOT OAct4wN, OActMore, OActMoreOT OPur4w, OPur4wOT OPur4wN, OPurMore, OPurMoreOT IAct4w, OPurMoreOT IAct4wDan, IAct4wDanOT IAct4wGym, IAct4wGymOT IAct4wMar, IAct4wMarOT IAct4wN, IActMore, IActMoreO IActMoreDan, IActMoreDanOT IActMorGym, IActMoreGymOT IAct4wMar IActMoreMarOT | Cymryd rhan mewn chwaraeon | • Casglu gwybodaeth am ba mor aml mae'r ymatebydd yn cymryd rhan mewn gemau, chwaraeon ac ymarfer corff o fath arall<br>• Cadarnhau pa weithgarwch chwaraeon mae'r ymatebydd wedi cymryd rhan ynddynt dros y 4 wythnos ddiwethaf<br>• Pennu pa fath o weithgarwch chwaraeon nad yw'r ymatebydd yn ei wneud ar hyn o bryd ond y byddai'n hoffi ei wneud yn y dyfodol<br><br>Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio gan Chwaraeon Cymru i fonitro tueddiadau chwaraeon yng Nghymru. Byddant hefyd yn cael eu dadansoddi i weld a yw'r lefelau cyfranogi yn wahanol ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i helpu i lunio polisïau chwaraeon, iechyd ac addysg, ac wrth wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn chwaraeon.<br><br>Mae data'r arolwg hefyd yn cael eu defnyddio gan bartneriaid eraill, fel awdurdodau lleol a Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol Chwaraeon. |

| | | |
|---|---|---|
| SCAccept, XSCAcept XSCAceptOT | CASI acceptance | • Cael caniatâd yr ymatebydd i barhau gyda'r cwestiynau CASI (Computer Assisted Self Interviewing) ei hun<br><br>Mae CASI yn caniatáu casglu data ar amrywiol gwestiynau mwy sensitif drwy roi cyfle i'r ymatebwyr deipio eu hatebion yn uniongyrchol i'r cyfrifiadur, yn hytrach na'u hateb yn uchel i'r cyfwelydd eu cofnodi. Gall hyn helpu i wneud i'r ymatebwyr deimlo'n fwy cysurus yn ateb y cwestiynau hyn, a gall helpu i wella ansawdd y data sy'n cael eu casglu. |
| InPrac, CASIPra1, CASIPra3, CASIPra4 CASIPra5, EndPrac | Modiwl hyfforddi CASI | • Rhoi cyfle i'r ymatebydd ymarfer defnyddio'r cyfrifiadur cyn ateb cwestiynau'r arolwg. |
| LoneEmp, LoneMiss, LoneRej, LoneRely, LoneTrust, LoneClose | Llesiant – unigrwydd – CASI | • Casglu data ar gefnogaeth gymdeithasol ac emosiynol yr ymatebydd<br><br>Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys er mwyn helpu i ddeall yr agwedd hon ar lesiant yng Nghymru. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| NPSHelp NPSWeb NPSHelpOT NPSWellInf NPSWellInfPar | CASI cyffuriau – cymorth | • Cadarnhau beth fyddai ffynonellau gwybodaeth yr ymatebydd pe bai'n defnyddio neu'n ystyried defnyddio cyffuriau<br><br>Bydd y canlyniadau hyn yn helpu Llywodraeth Cymru a sefydliadau sy'n gyfrifol am strategaethau camddefnyddio sylweddau i fesur effaith ymgyrchoedd addysgu, atal a chodi ymwybyddiaeth yng Nghymru, a phennu'r ffordd orau o gyfathrebu cyngor ar y testun hwn yn y dyfodol. Nid yw'r canlyniadau'n cael eu defnyddio i adnabod unigolion nac aelwydydd mewn unrhyw fodd. |

| | | |
|---|---|---|
| SexOrient<br>Religion<br>ReligionOT | Cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd – CASI | • Casglu gwybodaeth am hunaniaeth rywiol a chrefydd yr ymatebydd<br><br>Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer dadansoddiad manylach o ganlyniadau'r arolwg yn ôl y nodweddion hyn. Nid yw'r canlyniadau'n cael eu defnyddio i adnabod unigolion nac aelwydydd mewn unrhyw fodd. |
| Piercings<br>PiercWhen<br>Tattoos<br>TatWhen | Tatŵs a thyllu'r corff | • Casglu gwybodaeth ynghylch a oes gan yr ymatebydd datŵs neu dyllau yn y corff<br>• Cadarnhau pryd oedd y tro diwethaf i'r ymatebydd gael tatŵ neu dwll yn y corff<br><br>Bydd y canlyniadau yn helpu i gadarnhau nifer yr achosion o driniaethau o'r fath yng Nghymru. Un o brif ddarpariaethau Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2016 yw cyflwyno cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer rhoi twll yn y corff neu datŵio. Nod y ddeddfwriaeth yw darparu amgylchedd glanach ar gyfer y triniaethau hyn, a lleihau'r cymhlethdodau sy'n codi yn eu sgil. Fel pynciau eraill yr arolwg, bydd hefyd yn bosib cynnal ymchwil pellach drwy ailgysylltu ag ymatebwyr yr arolwg i gasglu rhagor o wybodaeth. |
| | CASI – diwedd | Hysbysu'r ymatebydd bod y rhan CASI wedi dod i ben ac y dylai roi'r gliniadur yn ôl i'r cyfwelydd. |
| Recontact | Caniatâd i ailgysylltu | • Cadarnhewch os yw'r ymatebydd yn hapus i chi ailgysylltu i'w wahodd i gyfrannu at brosiectau ymchwil dilynol<br><br>Bydd manylion yr ymatebydd yn cael eu defnyddio at ddibenion ymchwil yn unig, a bydd manylion personol yn cael eu cadw'n gwbl gyfrinachol. |
| HCSPerm | | • Ceisio caniatâd i gymryd rhan yn yr Arolwg Cyflwr Tai |
| Vouch1 | | • Cadarnhau a hoffai'r ymatebydd dderbyn taleb "Diolch" dros e-bost neu drwy'r post |

| | | |
|---|---|---|
| ChkName<br>Postname<br>VAddChk<br>VAddr1-4<br>Vpostcode<br>GiveTel<br>PhSTD<br>PhNum | Cyfwelydd i wirio'r wybodaeth | • Cadarnhau enw, cyfeiriad a rhif cyswllt yr ymatebydd<br><br>Mae'r manylion hyn yn cael eu defnyddio i gadarnhau cyfran o'r cyfweliadau dros y ffôn; mae'n bosib eu defnyddio hefyd os yw'r ymatebydd wedi cytuno bod modd ailgysylltu ar gyfer ymchwil dilynol. |
| EmailV<br>Email | E-bost | • Gofynnwch am gyfeiriad e-bost yr ymatebydd a chadarnhewch a fyddai diddordeb ganddo dderbyn canlyniadau'r arolwg pan fyddant yn cael eu rhyddhau<br><br>Defnyddir cyfeiriadau e-bost ar gyfer gohebiaeth yn ymwneud â'r arolwg yn unig. |

**Atodiad: Cwestiynau Arolwg Cyflwr Tai Cymru yn Arolwg Cenedlaethol 2017-18**

Mae'r cwestiynau Arolwg Cyflwr Tai Cymru yn Arolwg Cenedlaethol 2017-18 yn galluogi mesur cyfran yr aelwydydd yng Nghymru sy'n dioddef 'tlodi tanwydd' (h.y. yn gwario 10% neu fwy o'u hincwm ar gostau ynni), neu dlodi tanwydd difrifol (h.y. yn gwario 20% neu fwy o'u hincwm ar gostau ynni). Bydd y wybodaeth a gesglir yn helpu Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau ynghylch sut y dylid helpu aelwydydd sy'n dioddef tlodi tanwydd.

Er mwyn mesur cyfran yr aelwydydd sy'n dioddef 'tlodi tanwydd', mae angen i ni gael gwybod beth yw incwm yr aelwyd ar ôl costau tai (oherwydd ni ellir gwario costau tai ar ynni) a gwariant yr aelwyd ar gostau ynni. Mae cyfrifo incwm a chostau tai'n gywir yn fater eithaf cymhleth. Mae angen gofyn cwestiynau manwl er mwyn cael canlyniadau cywir. I gyfrifo incwm, mae angen i ni wybod am incwm o gyflogaeth ond hefyd o ystod eang o ffynonellau eraill megis budd-daliadau a llog ar gynilion.

I gyfrifo costau tai:

- ar gyfer aelwydydd sy'n rhentu, rydym yn gofyn am lefel y rhent, ond hefyd os ydynt yn derbyn budd-daliadau sy'n helpu i dalu eu costau tai
- ar gyfer perchnogion tai, bydd taliadau morgais yn cynnwys taliad llog i'r banc a hefyd, mewn llawer o achosion, daliad cyfalaf (yr elfen sy'n lleihau'r swm sy'n weddill i'w dalu o'r morgais). Rydym am gael gwybod am y costau sy'n berthnasol i dalu'r llog ar unrhyw fenthyciad morgais yn unig. Mae hyn oherwydd bod elfen gyfalaf yr ad-daliad i bob pwrpas yn prynu rhan o'r tŷ, felly nid yw'n gost yn yr un ffordd â rhent. Mae taliadau llog ar bob benthyciad a gafwyd ar y tŷ wedi'u cynnwys.

Mae ambell i gwestiwn ynghylch sut y telir am nwy a thrydan, oherwydd bod y dull talu'n gwneud gwahaniaeth i'r gost. Yn seiliedig ar yr atebion i'r cwestiynau hyn, ynghyd â'r arolygiad dilynol, gallwn gyfrifo amcangyfrif o faint y byddai'n ei gostio i wresogi'r aelwyd yn ddigonol. (Rydym am gael gwybod faint y *byddai'n* ei gostio i wresogi'r aelwyd yn ddigonol, yn hytrach na'r costau gwirioneddol, oherwydd mewn rhai achosion gallai aelwydydd fod yn gwario mwy neu lai ar ynni trwy ddewis personol.)

**Mae gwybodaeth gefndir ar Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 ar gael yn [www.gov.wales/WHCS](http://www.gov.wales/WHCS)**

**Rhesymeg y cwestiynau a ddewiswyd**

| **Enw'r newidyn** | **Crynodeb o'r cwestiwn** | **Rheswm dros ofyn** |
|---|---|---|
| RentServIncl | A yw'r rhent yn cynnwys amrywiol wasanaethau | Defnyddir hyn i sicrhau bod costau tai'n cael eu mesur mewn ffordd safonol rhwng gwahanol ymatebwyr. Mae angen i ni wybod am rent er mwyn pennu incwm ar ôl costau tai er mwyn cyfrifo a yw'r aelwyd yn dioddef tlodi tanwydd. |
| OwnerYear | Pryd y daethoch yn berchennog ar yr eiddo | Defnyddir hyn i bennu pa gyfran o'r taliad morgais cyfan sy'n daliad llog. Mae angen gwybod hyn er mwyn cyfrifo incwm ar ôl costau tai ar gyfer tlodi tanwydd. |
| AccomPrice | Cyfanswm a dalwyd i brynu'r eiddo | Gofynnir y cwestiynau hyn i bennu pa gyfran o'r taliad morgais cyfan sy'n daliad llog. Mae angen gwybod hyn er mwyn cyfrifo incwm ar ôl costau tai ar gyfer tlodi tanwydd.<br>Mae rhai o'r cwestiynau hyn yn casglu'r un wybodaeth ond mewn ffyrdd gwahanol, fel bod modd cael y wybodaeth angenrheidiol os oes atebion ar goll neu'n gwrthdaro.<br>Mae'r gwerth cyfredol ar y farchnad yn golygu y gellir amcangyfrif yr ecwiti, sy'n helpu i bennu faint o'r benthyciad sy'n weddill i'w dalu sy'n helpu i bennu'r taliad llog. Nid yw'r syrfewyr tai'n prisio'r eiddo.<br>Mae gofyn am fathau o gyfraddau llog yn helpu i ddilysu cyfradd y llog neu ei hamcangyfrif os nad yw wedi'i darparu. |
| CashDep | Faint oedd yr ernes arian parod wreiddiol | |
| MarketVal | Gwerth cyfredol ar y farchnad | |
| MortOutst | Morgais sy'n weddill i'w dalu | |
| RateTyp | Math o gyfradd llog ar y morgais | |
| IntRate | Cyfradd y llog cyfredol | |

| Enw'r newidyn | Crynodeb o'r cwestiwn | Rheswm dros ofyn |
|---|---|---|
| All benefits | A ydynt yn cael budd-dal X | Gofynnir hyn i helpu i gyfrifo incwm yr aelwyd, sy'n hanfodol er mwyn cynhyrchu ystadegau tlodi tanwydd.<br>Cyfrifir yr holl fudd-daliadau hyn fel rhan o incwm yr aelwyd. Mae angen i ni gael gwybod manylion megis a yw'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau neu ar incwm i helpu i ddilysu'r wybodaeth a ddarparwyd, neu i wneud amcangyfrifon os na ddarparwyd y wybodaeth. |
| BenWhoChild | Ai'r ymatebydd neu bartner sy'n derbyn budd-dal plant | Unwaith eto, defnyddir hyn i helpu i gyfrifo incwm yr aelwyd. Mae angen y wybodaeth hon i bennu faint o dreth y mae gofyn i bob unigolyn ei dalu a faint y gallai fod ganddynt hawl iddo o dan fudd-daliadau eraill. |
| OthIncWho | Ai'r ymatebydd neu bartner sy'n derbyn incwm arall | |
| Savings | Pa gynilion sydd gan yr ymatebydd a'r partner | Mae incwm o log ar gynilion wedi'i gynnwys yn incwm yr aelwyd. Mae gofyn am gynilion yn rhoi canlyniadau mwy cywir na gofyn faint o log y maent yn ei dderbyn. |
| ElecPay | Sut y telir am drydan | Mae hyn yn pennu'r pris a delir am danwydd – sy'n hanfodol i ffigurau tlodi tanwydd.<br>Mae'r pris a delir am drydan neu nwy'n amrywio yn dibynnu ar y dull talu. Er enghraifft, mae mesuryddion rhagdalu'n fwy drud fel arfer. Debyd uniongyrchol yw'r dull rhataf gan amlaf. |
| GasPay | Sut y telir am nwy | |